Proffil

# Sgiliau Digidol

## Graddedigion

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

### Pa sgiliau digidol ydych chi'n eu defnyddio yn eich MSc?

Creu'n ddigidol – "felly defnyddio PowerPoint ac Excel i gyflwyno data a gwybodaeth."

Dysgu digidol – "defnyddio rhaglenni iaith yn bennaf, defnyddies i R yn fy ngradd israddedig ond dwi ddim yn credu fy mod i wedi dysgu digon a dim ond y pethau sylfaenol ddysges i felly dwi wedi defnyddio LinkedIn Learning i ddatblygu'r sgiliau yna."

Gwybodaeth a Llythrennedd Digidol – "Dwi'n defnyddio Google Scholar lot a ChatGPT sydd ag ochr dda yn ogystal ag un wael ac mae fy narlithydd cyfrifiadureg mewn gwirionedd yn ei argymell ar gyfer pan nad ydych chi'n gwybod beth mae'r llinell orchymyn yn ei wneud neu os ydych chi'n ansicr o'r hyn mae gorchymyn yn ei wneud, mae'n gallu bod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer aralleirio gwybodaeth i'ch helpu i'w deall yn well."

Cyfathrebu a Chydweithio – "Dwi'n defnyddio LinkedIn i rwydweithio ac i ddod o hyd i swyddi gan fod llawer o bobl yn chwilio am swyddi ac yn hysbysebu yn y gofod ar-lein erbyn hyn felly mae fel Facebook y byd gwaith."

### Ble wnaethoch chi ddysgu'r sgiliau digidol hyn?

"Dysges i lawer ohonyn nhw yn ystod fy ngradd israddedig a gyda phob modiwl byddech chi'n dysgu sgiliau digidol ond ar gyfer pethau fel R defnyddies i LinkedIn Learning a dwi hefyd wedi ei ddefnyddio i ddatblygu fy hobïau oherwydd fy mod i'n mwynhau ffotograffiaeth mewn gwirionedd. Dim ond yn hwyr yn fy ngradd israddedig y des i o hyd iddo fe ac fe hoffwn pe bawn i wedi cael gwybod amdano yn gynt."

### Oes unrhyw sgiliau digidol yr hoffech fod wedi'u dysgu cyn ichi raddio?

"Byddwn i wedi hoffi cael mwy o help gydag R, mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn ystod eich gradd israddedig yn gyffredinol iawn ac yn amhenodol ond mae'n debyg mai dyna ble mae LinkedIn Learning yn helpu i gael y sgiliau manwl yna."

**Pryd wnaethoch chi raddio o Brifysgol Aberystwyth?**

"2022"

**Beth fuoch chi'n ei astudio?**

"Biocemeg"

**Beth ydych chi'n ei wneud yn broffesiynol ers graddio?**

"Rwy'n gwneud gradd meistr mewn Biowybodeg ym Mhrifysgol Caerdydd."



# Gabriela Arciszewsk